

# Gweddi Litani

Arweinydd: Pan ddaw'r Nadolig yn ei dro o flwyddyn i flwyddyn, cawn ein temtio, Arglwydd, i ddweud, 'Rydan ni wedi clywed y stori hon o'r blaen. Rydan ni'n ei gwybod hi ar ein cof.'

Y Gynulleidfa: Maddau i ni, O Dad, ac atgoffa ni fod gwahaniaeth rhwng gwrando ar y stori a gadael i'w neges siarad â ni a chael lle yn ein calonnau.

Arweinydd: Arglwydd, helpa ni i weld ein hunain a'n hagwedd ni yn cael ei phortreadu ym mywydau'r bobl sy'n cymryd rhan yn stori'r Nadolig.

Y Gynulleidfa: Nid oes gan ŵr y llety le i ti yn ei gartref. Arglwydd, helpa ni i beidio â llenwi'n bywydau â phethau nad oes eu hangen arnom – mae cynifer o bethau yn dy gadw di allan.

Arweinydd: Arglwydd, ni welodd llawer o bobl Bethlehem ogoniant geni Iesu Grist. Ond clywodd y bugeiliaid gan yr angylion ac fe ddaethon nhw at y crud i'w addoli ef.

Y Gynulleidfa: Arglwydd, helpa ni i weld dy ogoniant ac i'th glywed yn siarad â ni heddiw. Cynorthwya ni i'th addoli bob dydd yn ein gwaith a'n gwasanaeth i ti ac i'n cyd-ddyn.

Arweinydd: O Dad, blin a hir fu taith y doethion am gannoedd o filltiroedd at y preseb ym Methlehem.

Y Gynulleidfa: Arglwydd, fe ddysgaist ti y bydd pob un sy'n dy geisio mewn gwirionedd yn dy gael. Drwy bob amheuaeth, gofid neu siom ar y daith, paid â gadael i ni fodloni nes dod o hyd i ti.

Arweinydd: Dad, fe ddaethon nhw ag anrhegion o aur a thus a myrr i'r baban Iesu.

Y Gynulleidfa: Arglwydd, cynorthwya ni i ddod ag aur ein hufudd-dod a thus ein haddoliad i ti heno.